
Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@walescoastpath
walescoastpath.gov.uk




# Aberporth i Dresaith, Ceredigion

## Dwy filltir yw hyd y daith hon sy'n cysylltu pentrefi glan môr Tresaith ac Aberporth. Mae'n addas ar gyfer teuluoedd ac yn llawn uchafbwyntiau.

*"Gyda'i olygfeydd godidog, mae'r llwybr pen clogwyn hwn yn hynod boblogaidd gyda theuluoedd, ac mae'n cysylltu dau bentref glan môr hyfryd, gyda thraethau, lluniaeth a chyfleusterau toiled cyfleus."*

**NIGEL NICHOLAS, SWYDDOG LLWYBR ARFORDIR CYMRU**

### Dechrau a Diwedd:
Aberporth i Dresaith

### Pellter:
2 filltir/3km.

### Ar hyd y ffordd...
Aberporth yw'r man cychwyn i chi, ar un adeg yn ganolfan forwrol brysur gyda'i fflyd fawr o gychod penwaig. Erbyn heddiw, mae'n lle braf a heddychlon. Mae iddi ddau draeth tywod cysgodol gyda phyllau glan môr - delfrydol ar gyfer yr archwilwyr ifanc.

Ceir byrddau picnic ar bob pen i'r daith, ac mae dros hanner y llwybr o safon uchel sy'n addas ar gyfer cadeiriau olwyn a choetsys ac mae'r golygfeydd ar hyd arfordir Bae Ceredigion yn odidog. Mae'r Bae, wrth gwrs yn enwog am ei ddolffiniaid sy'n chwarae'n hapus rhwng y tonnau (cadwch lygad am y dolffin pren ar ddechrau'r daith hefyd!).

Yn ychwanegol at fynediad addas i gadeiriau olwyn a chyfleusterau toiled cyfleus, mae rhan Mynediad Cynhwysol Llwybr y Clogwyn yn cychwyn yn Headland Place. Gellir cael mynediad i'r llwybr hefyd o 'r llefydd parcio i'r anabl ger Capel Brynseion (sydd bellach wedi ei drawsnewid i lety) wrth ymyl Heol y Graig, sydd oll i'r dwyrain o Fae Aberporth. Ceir meinciau picnic sy'n addas i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn 100 metr ac 1 cilomedr (0.6milltir) o'r maes parcio.

Dilynwch Lwybr Arfordir Cymru i'r dwyrain i gyfeiriad Tresaith, heibio nifer o gildraethau creigiog cudd. Rydych yn siŵr o ddod ar draws adar megis clochdar y cerrig, corhedydd y waun, a nifer o frain anghyffredin. Yn ystod misoedd yr haf, mae gweirlöyn y perthi lliwgar hefyd i'w gweld. Yn Nhresaith, cofiwch sylwi ar y rhaeadr arfordirol sy'n llifo dros y clogwyni i'r dwyrain o'r traeth tywodlyd euraid.

### Angen gwybod:
Mae bron i hanner y daith yn addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn, ac yn cynnwys meinciau picnic. Mae'n daith sy'n eich tywys i dawelwch a llonyddwch, gan anghofio prysurdeb bywyd bob dydd.

Cofiwch chwilio am y dolffiniaid, y brain prin a'r rhaeadr anghyffredin yn Nhresaith. Ewch i wefan Richard Bros i gael yr amserlenni a'r mannau casglu https://www.richardsbros.co.uk/Bus-Services